

Presennol:	Huw Jones Carol Bell Aled Eirug Hugh Evans Marian Wyn Jones Siân Lewis Elan Closs Stephens	(Cadeirydd) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones Elin Morris Dafydd Rhys Phil Williams Bethan C. Williams Carys Evans Sharon Winogorski	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Cyfarwyddwr Cynnwys) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Pennaeth Dadansoddi) – eitemau 6-9 (Prif Swyddog Cyllid) – eitem 11
Ymddiheuriadau	Guto Harri John Davies	(Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)

COFNODION

1. **Croeso a Datganiadau diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion cyfarfod 382** (a gynhaliwyd ar 11.12.14)

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 382.

Cymeradwydd yr Awdurdod y cofnodion.

3. **Materion yn Codi**

Datganoli Darlledu/S4C

[**Crynodeb:** Trafodwyd ariannu S4C i'r dyfodol a chyd-destun ehangach y drafodaeth am ddatganoli pwerau pellach i'r Cynulliad gan gynnwys darlledu.]

Strategaeth Dysgwyr

Holwyd a oedd unrhyw ddatblygiadau pellach parthed gweithredu'r strategaeth dysgwyr ac esboniwyd fod swyddogion yn parhau i ddatblygu cynlluniau, gan gynnwys syniadau ar gyfer cydweithio gyda Radio Wales.

Polisi Rhaglenni/Eitemau Coffa

Esboniwyd bod swyddogion wedi trafod ail-ddiffinio manylion y polisi gyda'r BBC yn dilyn newidiadau i bolisi'r BBC, ac y byddai drafft diwygiedig o'r Polisi yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynnwys yn ei gyfarfod nesaf.

4. **Cofnodion y Diwrnod i Ffwrdd** (a gynhaliwyd ar 8 Ionawr)

Cyflwynwyd cofnod cryno o'r prif bwyntiau a drafodwyd yn ystod y Diwrnod i Ffwrdd a chafwyd trafodaeth am y materion canlynol.

Cyfeiriwyd at y drafodaeth am flaenoriaethau strategol diwygiedig ar gyfer S4C a chyflwynwyd drafft o flaenoriaethau strategol ar gyfer ystyriaeth yr Awdurdod. Holwyd a oedd y geiriad awgrymedig yn rhoi digon o bwyslais ar yr awydd i sicrhau fod cynnwys S4C ar gael i'r gynulleidfa lle bynnag y bônt. Nodwyd nad oedd y geiriad yn cyfyngu ar allu S4C i ddarparu cynnwys lle bynnag y mae hawliau'n caniatáu, a bod remit statudol S4C yn cynnwys cyfyngiadau daearyddol ("wholly or mainly for reception in Wales"). Penderfynwyd fod y geiriad awgrymedig yn ddigon clir o ran datgan awydd S4C i ddarparu cynnwys i'r gynulleidfa ehangaf posibl.

Cymeradwywyd y Blaenoriaethau Strategol diwygiedig.

[**Crynodeb** : Nodwyd y drafodaeth a gafwyd ar dargedau'r Awdurdod.]

Cymeradwywyd cofnodion cryno'r Diwrnod i Ffwrdd.

5. **Partneriaethau**

Cafwyd trafodaeth am sut i asesu gwerth a pherfformiad partneriaethau unigol i S4C, a phenderfynwyd gofyn i swyddogion ystyried sut mae diffinio llwyddiant ystod partneriaethau S4C.

Adnabod y Gynulleidfa

Cafwyd trafodaeth am brosiect adnabod y gynulleidfa ac esboniwyd y byddai adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Ebrill, gyda'r prosiect yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn pryd y byddai cyflwyniadau pellach yn cael eu darparu i'r Awdurdod, gyda chanlyniadau hefyd yn cael eu rhannu gyda'r cynhyrchwyr annibynnol.

[**Crynodeb**: Cafwyd trafodaeth bellach am dargedau cyrhaeddiad.]

Cytundebau Sefydlogi

[**Crynodeb** : Cafwyd trafodaeth am y drefn o gytundebau sefydlogi.]

Cyfarfod gyda TAC

Cyfeiriwyd at yr awgrym i gynnal cyfarfod rhwng yr Awdurdod a chynrychiolwyr TAC unwaith y flwyddyn. Awgrymwyd y dylid cynnig cyfarfod gyda TAC ym mis Medi.

Newidiadau strategol i'r amserlen

Cafwyd trafodaeth am gynlluniau ar gyfer newidiadau strategol i'r amserlen yn y dyfodol, gan gynnwys nifer o feysydd a gyflwynwyd yn y Strategaeth Cynnwys ddiwygiedig yng Ngorffennaf 2014. Nodwyd fod yr Awdurdod yn awyddus i dderbyn asesiad o effeithiau posibl unrhyw newidiadau strategol yn y dyfodol.

6. Cofnodion Cyfarfod 383

[**Crynodeb** : Cynhaliwyd cyfarfod busnes arbennig i drafod mater masnachol penodol a darparwyd cofnodion o'r cyfarfod.]

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod busnes 383 a gynhaliwyd ar Ionawr 8fed.

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 383.

7. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y canlynol.

Nododd ei fod wedi cynnal cyfarfod gyda Rona Fairhead ac ECS er mwyn cyflwyno S4C a chychwyn trafodaeth am ddyfodol perthynas Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC, a bod bwriad i gyfarfod eto cyn yr etholiad cyffredinol. Roedd yn gyfarfod cyfeillgar a chadarnhaol. Mae swyddogion hefyd am barhau i gyfarfod er mwyn ceisio datblygu fframwaith a chytuno ar egwyddorion ar gyfer cynnod nesaf y bartneriaeth unigryw rhwng yr Awdurdod a'r Ymddiriedolaeth er mwyn ei gyflwyno i'r Cadeiryddion yn eu cyfarfod.

8. Arolwg Defnydd Iaith Llywodraeth Cymru, 2013-15

Cyflwynodd CE grynoded o gasgliadau arolwg Defnydd Iaith Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ac esboniwyd y byddai'r canfyddiadau yn cael eu hystyried ymhellach fel rhan o'r prosiect adnabod y gynulleidfa.

9. Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi Chwarter 3, 2014-15

Cyflwynwyd yr adroddiad Cynnwys a Dadansoddi ar gyfer Chwarter 3, 2014-15.

[**Crynodeb** : Yn dilyn y cyflwyniad cynhaliwyd trafodaeth ar rhai pynciau penodol yn ymwneud â'r gwasanaeth rhaglenni.]

10. Gwyllo Ar-lein

[**Crynodeb** : Cafwyd trafodaeth am wyllo ar-lein i raglenni S4C.]

Cyfeiriwyd at ryngwyneb yr iPlayer ar rai llwyfannau megis blychau Sky a nodwyd nad yw holl arlwy S4C ar gael ar y blychau. Esboniwyd fod swyddogion yn parhau i drafod datblygu'r gwasanaeth gyda thîm yr iPlayer er mwyn sicrhau profiad cyson i'r gwylwr ar yr iPlayer ar draws dyfeisiau gwahanol. Roedd cynlluniau hefyd ar y gweill er mwyn caniatáu i wylwyr lawr lwytho cynnwys drwy'r iPlayer.

11. **Cyflwyniad Tracio Delwedd SPA**

Nodwyd y bydd John Priest o gwmni SPA yn cyflwyno ffrwyth eu gwaith ymchwil tracio delwedd i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

12. **Rhaglenni Chwarter 3**

[**Crynodeb** : Cafwyd trafodaeth am nifer o raglenni a genres a ddarllwyd yn ystod y cyfnod, gan gyfeirio at esiamplau penodol.]

13. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**

[**Crynodeb** : Ar ben y drafodaeth chwarterol cyfeiriwyd at raglenni a ddarllwyd o fewn y mis aeth heibio ers cyfarfod diwethaf yr awdurdod.]

14. **Adroddiad Ariannol Chwarter 3 2014-15 a Chyllideb Drafft hyd 2016/17**

Cyflwynwyd adroddiad Ariannol Chwarter 3 a Chyllideb Drafft 2015-16 gan SW.

[**Crynodeb** : Cafwyd trafodaeth am lefelau incwm a blaenoriaethau gwariant S4C.]

Yn dilyn y drafodaeth cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer 2015-16, gan nodi fod gwaith pellach i'w wneud ar gynlluniau ariannol 2016-17 yn amodol ar sicrwydd lefelau cyllid S4C.

15. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

[**Crynodeb** : Rhoddwyd diweddariad ar y trafodaethau parthed polisi diswyddo S4C mewn perthynas â chynllunio ar gyfer adleoli pencadlys S4C i Gaerfyrddin.]

Cyfeiriodd at newidiadau staff diweddar. Nododd fod GD wedi gadael S4C bellach, a diolchodd iddi am ei gwasanaeth i S4C. Croesawodd ERh a SB i'w swyddi newydd ym meysydd adloniant a chwaraeon.

Nodwyd bod y Llawlyfr Staff diwygiedig bellach wedi ei gwblhau ac y byddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Personél ym mis Mawrth.

16. **Ymgynghoriad Ofcom i ddarlledu PSB - Amlygrwydd S4C ar EPGs**

Cafwyd trafodaeth am ymgynghoriad Ofcom i ddarlledu PSB ac esboniwyd y byddai swyddogion yn ymateb ar ran S4C gan gyflwyno negeseuon corfforaethol sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad.

Cyfeiriwyd at amlygrwydd gwasanaethau PSB ar EPGs a phenderfynwyd y byddai ymateb S4C i ymgynghoriad Ofcom yn cynnwys cyfeiriadau at faterion yn ymwneud ag amlygrwydd ar gyfer gwasanaeth S4C ar EPGs, ac yn benodol:

- (i) Ystyriaeth i rif EPG S4C ar wasanaeth Virgin Media o fewn Cymru, ac
- (ii) Ystyriaeth i amlygrwydd ar lwyfannau ar-lein ar draws y DU.

17. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth.

18. **Rhaglen Waith**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith drafft ar gyfer gwaith yr Awdurdod tan Orffennaf 2016 ac esboniwyd fod y rhaglen waith yn ymgorffori'r patrwm adrodd chwarterol newydd. Nodwyd y byddai newidiadau i'r rhaglen yn cael eu cynnwys ar ffurf track changes er gwybodaeth ym mhapurau misol yr Awdurdod.

Cymeradwywyd y rhaglen waith.

19. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau 12 Mawrth 2015 yng Nghaerdydd